

PWYLLGOR CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU

10 Chwefror 2021

Yn bresennol: Mrs J James (Cadeirydd)
Cynghorydd D Clements, Cynghorydd K Doolin, Mrs S Hoss,
Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M
Williams.

(Cyfarfod Rhithiol: 2.00pm – 3.35pm)

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth Dr R Plummer a'r Cynghorydd M James.

2. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 21ain o Hydref 2020 i'w cadarnhau a'u dilysu.

PENDERFYNWYD cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 21ain o Hydref 2020.

4. Materion yn codi o'r Cofnodion

Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau (Cofnod 5)

O ran y prosiect peilot ar 'gyfeillio' oedd yn rhan o ddull yr Awdurdod o fodloni Maen Prawf B8 (Mentora), dywedwyd bod ffurflen gwerthuso wedi'i hanfon i'w chyfieithu ac y byddai'n cael ei dosbarthu yn y dyfodol agos at yr Aelodau Llywodraeth Cymru oedd wedi bod yn rhan o'r cynllun.

NODWYD.

5. Diweddariad Cyffredinol ar Gefnogi a Datblygu Aelodau

Roedd adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democritaidd mewn sawl rhan, a gyda chytundeb y Cadeirydd, cymerodd yr ail o'r rhain - y Cynllun Hyfforddi - yn gyntaf.

Fel y dywedwyd yn y cyfarfod blaenorol, roedd y Cynllun Hyfforddi, a atodwyd i'w hadroddiad, wedi'i fabwysiadu gan yr Awdurdod fis Medi 2020, a hyd yma roedd tri gweithgaredd wedi'u trefnu. Roedd elfennau eraill yn gysylltiedig ag ymweliadau safle, ac oherwydd y cyfyngiadau COVID-19 cyfredol, rhaid oedd gohirio'r elfennau hynny. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Cynllun yn nodi rhaglen dreigl fyddai'n cael ei chyflwyno dros dymor swydd yr Aelodau.



Gan droi at yr adran ar Adolygiadau Datblygu Personol, dywedwyd y dylai'r broses ddechrau eto fis Ebrill er mwyn gallu diweddarau'r cynllun hyfforddi yn yr hydref. Fodd bynnag, roedd y swyddog yn ymwybodol bod nifer o'r Aelodau yn bwriadu gwneud eu hadolygiadau cyn hynny, felly byddai'n dosbarthu'r gwaith papur angenrheidiol yn ystod yr wythnosau nesaf.

O ran y Siarter Uwch, dywedwyd bod cynnydd cyson wedi'i wneud o ran cyflawni'r meini prawf, ac roedd rhestr wirio ddiweddaraf Meini Prawf y Siarter wedi'i hatodi i'r adroddiad. Gan dynnu sylw at y diweddariadau ers y cyfarfod diwethaf, nodwyd bod sesiwn hyfforddi ar y Cod Ymddygiad a'r Cynllun Dirprwyo wedi cael ei chynnal ar 3 Chwefror 2021 (meini prawf A2 ac A3); byddai'r broses Adolygiadau Datblygu Personol yn cychwyn cyn hir (maen prawf B2); bydd yr Awdurdod yn ystyried y Calendr o Gyfarfodydd 2021/22 yn ei gyfarfod fis Mawrth, ac os yn bosibl, byddai'r calendr yn nodi'r sesiynau datblygu fyddai'n cael eu cynnal yn y flwyddyn sydd i ddod. Fodd bynnag, nodwyd y byddai gweithdai yn cael eu clustnodi mewn rhai achosion, a bydd y rhaglen o sesiynau yn cael ei diweddarau yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Roedd Maen Prawf B5 yn cyfeirio at yr angen am i weithgareddau datblygu fod yn berthnasol ac o safon uchel, a nodwyd bod adborth wedi'i roi ar nifer o'r sesiynau diweddar, ac anogwyd yr Aelodau i barhau i roi adborth. Hefyd cyfeiriwyd yn y maen prawf hwn at y Rhwydwaith Cefnogi a Datblygu Aelodau a drefnir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac roedd y Cadeirydd a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Gweinyddol wedi mynychu cyfarfod o'r Rhwydwaith yn ddiweddar. Roedd trafodaeth ynghylch y straen a brofir gan Aelodau etholedig oedd yn cynorthwyo eu cymunedau yn ystod y pandemig COVID wedi arwain at yr Aelodau yn cael cynnig y cyfle yn awr i gael mynediad i Raglen yr Awdurdod ar Gymorth i'r Gweithwyr a ddarperir gan Gofal yn Gyntaf. Roedd cyflwyniad wedi'i wneud ar y rhaglen hon mewn cyfarfod yn ddiweddar o'r Pwyllgor Personél; byddai manylion am y modd i gael mynediad i'r cynllun yn cael ei ddarparu i bob Aelod cyn bo hir.

O ystyried popeth, barnwyd bellach bod yr Awdurdod mewn sefyllfa i wneud cyflwyniad i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am Statws Siarter Uwch.

Llongyfarchwyd y swyddogion gan yr Aelodau ar y Cynllun Hyfforddi, ac roeddent yn gefnogol bod cais yn cael ei wneud am y Siarter Uwch. Cwestiynwyd a oedd y ffigur o 55% o'r Aelodau oedd wedi gwneud eu Hadolygiad Datblygu Personol yn ddigonol, a dywedodd y swyddog bod y maen prawf ond yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Aelodau'n cael cynnig Adolygiad Datblygu Personol ac nad oedd unrhyw gyfradd manteisio ar y cynnig hwnnw wedi'i nodi. Serch hynny, gan y byddai'n rai misoedd eto cyn cyflwyno cais, roedd dal amser i fwy o Aelodau gymryd rhan yn y broses.



Roedd yr Aelodau hefyd yn edrych ymlaen at adolygu'r trefniadau ar gyfer busnes yr Awdurdod (maen prawf C2) gan y credid y gallai mwy o hyblygrwydd yn yr amserau y cynhelir cyfarfodydd ddenu aelodaeth mwy amrywiol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu gwaith, yn enwedig am gasglu'r dystiolaeth i'w chyflwyno. Byddai'r swyddogion yn cysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i geisio eu cyngor anffurfiol am barodrwydd yr Awdurdod cyn cyflwyno'r cais yn ffurfiol, a byddai gwybodaeth fanwl yn cael ei chyflwyno i bob Aelod cyn yr asesiad.

PENDERFYNWYD:

- a) argymhell i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol bod cyflwyniad yn cael ei wneud i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am statws Siarter Uwch;
- b) nodi'r camau a gymerwyd hyd yn hyn ar y Cynllun Hyfforddi, a
- c) bod y Broses o Adolygu Datblygiad Personol 2021 yn cychwyn cyn hir.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn (cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau sy'n dilyn) yng nghyfarfod y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021:

Nodwyd bod gwall teipograffyddol yn sillafu Park ym mhenderfyniad a) o'r cofnodion Saesneg.

